Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG50013**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad - Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth ar Ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant

Mai 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru,
WG50013, ISBN Digidol 978-1-83625-122-4

# Cynnwys

Cyflwyniad .......... 3
Ymatebion i’r Ymgynghoriad - Trosolwg .......... 3
Ymatebion i’r Ymgynghoriad – Crynodeb Byr .......... 4
Ymateb Llywodraeth Cymru .......... 5

# Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad[1] Llywodraeth Cymru ar ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng 31 Mawrth a 07 Mawrth 2023. Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro i ddilyn y cwestiynau a nodir yn yr ymgynghoriad.

# Trosolwg o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

2. Cafwyd cyfanswm o 23 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad bennu eu sefydliad i un o'r 12 math a sydd wedi'u nodi ar y ffurflen (gan gynnwys opsiwn 'arall'). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a gyflwynwyd gan bob sector.

| **Math o Sefydliad: Dewiswch un o'r canlynol:** | **Dewiswch un** |
|---|---|
| • Adeiladwr/Datblygwr | |
| • Gweithgynhyrchydd | 1 |
| • Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | 1 |
| • Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol | 7 |
| • Rheoli Adeiladu Arolygwyr Cymeradwy | 1 |
| • Ymgynghorydd Mynediad | |
| • Therapydd Galwedigaethol | |
| • Sefydliad Pobl Anabl | |
| • Rheolwr Cyfleusterau | |
| • Manwerthwr | |
| • Gweithiwr Adeiladu Proffesiynol | 1 |
| • Rheolwr Eiddo/Landlord | |
| • Sefydliad sy'n Cynrychioli Landlordiaid | |
| • Defnyddiwr/Gofalwr Changing Places | |
| • Rhiant/Gofalwr | |
| • Elusen | 1 |
| • Ymgyrchydd neu Grŵp Lobïo | 2 |
| • Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | 6 |

[1]Ar gael ar: Systemau awtomatig ar gyfer llethu tanau mewn cartrefi gofal plant | LLYW.CYMRU"

# Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr

**Cwestiwn 1**
**A ydych o blaid y diwygiad arfaethedig i'r diffiniad yn Rheoliad 2 o'r Rheoliadau Adeiladu?**

3. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r gwelliant arfaethedig i'r diffiniad yn Rheoliad 2 o'r Rheoliadau Adeiladu. Nododd y rhai a gefnogodd y gwelliant fod y ddau ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth ar hyn o bryd yn achosi dryswch ac mae'r nod o gynnwys gofynion perthnasol o dan un darn o ddeddfwriaeth yn synhwyrol. Nodwyd y byddai hyn yn rhoi eglurhad a chysondeb o ran dehongli a gweinyddu'r Rheoliadau Adeiladu.

4. Roedd y nifer fach a oedd yn anghytuno â'r newid i reoliad 2 o'r farn bod y term "bregusrwydd neu angen" yn anodd i'w ddehongli.

**Cwestiwn 2**
**A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i Reoliad 37A o'r Rheoliadau Adeiladu yn golygu ei fod yn gyfwerth â darpariaethau'r Mesur?**

5. Roedd mwyafrif (22) yr ymatebwyr yn cytun bod y diwygiadau i Reoliad 37A o'r Rheoliadau Adeiladu yn golygu ei fod yn gyfwerth â darpariaethau'r Mesur? Mae llawer o ymatebwyr yn nodi pwysigrwydd bod yn gyfwerth a manteision diogelwch bywyd systemau llethu tân.

6. Yn dilyn trafodaeth i egluro wedi'r ymgynghoriad, tynnodd yr un ymatebydd a oedd yn anghytuno â chwestiwn dau eu sylwadau yn ôl.

**Cwestiwn 3**
**Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud am y cynigion, nodwch nhw yma.**

7. Cafwyd ychydig o sylwadau ychwanegol ar y cynigion, roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch cartrefi gofal i'r henoed, pryderon ynghylch adeiladau dros dro gyda disgwyliad oes o 2 flynedd ac awydd am ddull gwahanol o ddatrys y mater.

**Cwestiwn 4**
**A ydych yn cytuno bod yr asesiad effaith a gynhaliwyd yn flaenorol yn berthnasol o hyd?**

8. Mae mwyafrif (19) yr ymatebwyr yn cytuno bod yr asesiad effaith a gynhaliwyd yn flaenorol yn parhau'n berthnasol. Dim ond un sylw a ddarparwyd ar gostau amgen, roedd y rhain o'r farn y byddai gan y gwelliannau oblygiadau pellach yn y rheoliadau adeiladu ac felly nid yw'r asesiad effaith bellach yn adlewyrchu'r cynigion.

**Cwestiwn 5**
**Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 5.a**
**Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y camau gweithredu arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

9. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg a heb unrhyw farn ar y pwnc hwn. Nododd rhai defnyddwyr y gellid cyhoeddi dogfennau yn Gymraeg.

# Ymateb Llywodraeth Cymru

10. Yn dilyn yr ymateb i C.1 gan y rhai a oedd yn anghytuno â dehongli rheoliad 2 a defnyddio'r geiriad "bregusrwydd neu angen", cynhaliwyd adolygiad pellach o'r geiriad. Yn dilyn yr adolygiad hwn mae'r geiriad bellach wedi ei newid i "dan 18 oed". Cafodd y newid geiriad ei adolygu a'i dderbyn gan randdeiliaid blaenllaw mewn diwydiant. Ein bwriad yw bwrw ymlaen â chynigion i gynnwys "o dan 18 oed" o fewn Rheoliad 2 - diffiniad o "Sefydliad" Rheoliadau Adeiladu 2010 .